Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mr Paul Roberts
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
1 Talbot Gateway
Port Talbot
SA12 7BR

Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL
08442 640670
gofyn@olderpeoplewales.com

12 Medi 2011

Annwyl Mr Roberts,

Adolygiad Ysbytai Gofal gydag Urddas: adborth a Hysbysiad Atodol yn gofyn am ragor o wybodaeth erbyn 30 Medi 2011

Hoffwn ddiolch i chi am ymateb yn brydlon i'm cais am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'm Hadolygiad 'Gofal gydag Urddas? Profiadau pobl hŷn mewn ysbytai yng Nghymru'. Rwy'n gwerthfawrogi'r amser a'r ymdrech a roddwyd i ymateb i'm cais. Mae'r ymatebion sydd wedi dod i law yn dangos lefel uchel o ymrwymiad i bobl hŷn yng Nghymru. Os bydd y Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn cymryd y camau y maen nhw wedi dweud y byddan nhw'n eu cymryd, dylid gweld gwelliant arwyddocaol ym mhrofiadau pobl hŷn yn yr ysbyty yng Nghymru.

Fel y gwyddoch, gofynnais i Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ymateb i'r argymhellion, gan amlinellu sut y bydden nhw'n cydymffurfio â nhw. Os byddai'r Bwrdd Iechyd yn penderfynu peidio â chymryd camau mewn ymateb i'r argymhellion, roeddwn yn gofyn am esboniad dros beidio â chymryd camau. Daeth ymateb cyntaf y Bwrdd Iechyd i law ar 15 Mehefin 2011. Ar ôl asesu'r ymateb hwnnw, anfonais

Hysbysiad Ysgrifenedig yn gofyn am ragor o wybodaeth i'm darbwyllo y byddai buddiannau pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u hybu yn ysbytai Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae fy nhîm a mi wedi asesu'r ail ymateb yn drylwyr. Rydyn ni wedi cael cymorth gan banel o gynghorwyr y mae eu henwau wedi'u rhestru ar ein gwefan. Rwy'n fodlon ar ail ymateb Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i Argymhellion 1 (arweinyddiaeth ar y ward), 2 (dementia), 3 (anghenion ymataliaeth), 5 (gohirio rhyddhau), 8 (amgylchedd y ward) a 12 (gwybodaeth a sgiliau). Ymdriniodd yr ail ymateb â'r materion hyn yn fanylach a rhoi sylw mwy uniongyrchol i'r pwyntiau a godwyd yn fy hargymhellion i.

Nid yw'r ail ymateb i Argymhelliad 4 (gwybodaeth bersonol cleifion) yn fy narbwyllo y bydd buddiannau pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u hybu yn ysbytai Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg o ran y mater hwn. Mae'n dda iawn gen i weld bod 'Llyfryn Disgwyliadau' i gael ei ddatblygu yn y misoedd nesaf. Fe fydd o wir fantais i bobl hŷn, eu perthnasau a'u gofalwyr. Er hynny, rwy'n poeni y gall fod yna ddiffyg anghysondeb - ac o bosibl diffyg ymroddiad - yn ymarferol ar draws wardiau gan fod y cynllun gweithredu'n dweud bod 'pob tîm clinigol i gytuno ar ei reolau ei hun ynghylch ble i drafod a pha bryd ac yn benodol beth yn eu barn nhw yw gwybodaeth ddwys neu sensitif (y timau i gael gwybod am y Llyfryn Disgwyliadau)'. Byddai'n well gen i weld ymagwedd gyson yn cael ei defnyddio ar gyfer pob tîm fel na fydd pobl hŷn yn profi amrywiadau yn ymarferol. Er bod y 'Llyfryn Disgwyliadau' yn fenter ardderchog, nid yw'n gyfystyr â pholisi neu ganllaw, yn enwedig gan y bydd yn cael ei ysgrifennu mewn modd sy'n rhoi gwybodaeth i'r cleifion yn hytrach nag i'r staff. Mae hefyd yn bwysig nodi ei bod yn bosibl nad gwybodaeth ddwys neu sensitif yw'r unig wybodaeth na fyddai claf am iddi gael ei chlywed. I'r claf y mae unrhyw wybodaeth bersonol yn perthyn a dylid gwneud pob ymdrech i'w chadw'n gyfrinachol. Nid wyf wedi cael fy argyhoeddi mai dyna'r safbwynt sy'n cael ei gyfleu gan ail ymateb Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i Argymhelliad 4. Mae'r ymateb yn brin o ran syniadau creadigol am sut y gallai'r 'her sylweddol, yn enwedig mewn

sefyllfaoedd lle nad oes modd symud cleifion o'u gwelyau', gael ei bodloni.

Felly, yn unol â Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2007, rheoliad 15(6), mae'r llythyr hwn yn Hysbysiad Atodol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i ofyn am ragor o wybodaeth i'm darbwyllo y cydymffurfir ag Argymhelliad 4. Byddwch cystal â rhoi'r wybodaeth hon erbyn **dydd Gwener 30 Medi am 12 canol dydd fan bellaf**.

Mae'n ofynnol imi gadw cofrestr, sydd ar gael i'r cyhoedd, yn cynnwys manylion yr argymhellion a chanlyniad unrhyw gamau pellach yr ydw i wedi'u cymryd, megis rhoi Hysbysiad Atodol i Fwrdd Iechyd penodol. Bydd y gofrestr ar ein gwefan ynghyd â phob ymateb a anfonwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a'r llythyr hwn. Bydd y gofrestr ar gael ar bapur hefyd os gwneir cais amdano.

Pan fyddaf yn fodlon bod gen i'r cyfan o'r wybodaeth angenrheidiol, bydd fy nhîm a mi'n gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod yr argymhellion yn dod yn realiti ymarferol sydd o les i bobl hŷn yng Nghymru.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y llythyr hwn yr hoffech eu trafod, cysylltwch ag Anna Buchanan ar 02920 445034 neu anna.buchanan@olderpeoplewales.com.

Yn gywir,

Ruth Marks
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru